

Araith Ymadawol y Dr W. Gwyn Lewis, Llywydd Henaduriaeth Arfon

Mae'n addas iawn mai yma yng Nghaeathro y mae fy nhymor fel Llywydd yr Henaduriaeth yn dod i ben, oherwydd tu ôl i mi yn y fynwent y mae tair cenhedlaeth ar ochr fy nhad wedi'u claddu – pob un ohonynt wedi bod yn gynheiliaid yr achos yn Seilo, Caernarfon am nifer helaeth o flynyddoedd.

Ac mae i Gaeathro le nodedig yn hanes Methodistiaeth yn Arfon. Nodir bod yna Ysgol Sul wedi'i chynnal mewn ffermdy o'r enw Penrhos yn yr ardal mor bell yn ôl â 1797. Dywedir mai enw'r cae lle mae'r capel hwn wedi'i godi arno oedd 'Cae-adraw' (sef cae yn ymestyn draw) – a dyna a roddodd ei enw i'r pentref: 'Caeathro'.

Yn 1865 fe brynwyd dros hanner acer o dir o amgylch y capel am £100, sef tir ar gyfer mynwent i anghydfurfwyr Caernarfon a'r cylch. Meddai William Hoble y *Hanes Methodistiaeth Arfon*: 'I bobl o'r tu allan, bri mawr Caeathro ydyw ei mynwent . . . Macpelah y Methodistiaid ydyw . . . a mangre gorweddfa enwogion y ffydd . . .' (tud. 160-161).

Tybed a oes yna rybudd amserol i ni yn y geiriau yna - i sicrhau nad yn ein mynwentydd y mae'r unig bethau sy'n cael eu cysylltu â Christnogaeth ein dyddiau **ni** !

Un o'r rhai a gladdwyd yma yng Nghaeathro yw fy nhaid, William Lewis, a fu farw'n sydyn a dirybudd yn 1927. Cyfansoddwyd cerdd goffa (27 pennill) iddo gan y Parch R R Morris – a dyma flas ar ambell bennill:

Yn oriau bore'i fywyd
Bu'n uchel iawn ei fraint,
Yn Nazareth a Seilo deg,
Yn sŵn gweddïau'r saint.

Fe brofodd Ddiwygiadau
Mewn eglwys frwd ei chân,
A gwelodd rai o'r saint a fu
Yn rhoddi'r Tŷ ar dân.

Dewisodd Iesu'n frenin
Yn gynnar yn ei ddydd,
Ac yn Ei law garedig Ef
Y cerddodd lwybrau ffydd.

Heb wybod iddo'i hunan,
Daioni wnâi'n ddi-ball:
Yr aswy law yn gwneud y gwaith
Heb ddangos dim i'r llall.

Blaenori bu yn Seilo
Flynyddoedd gloyw maith:
Ni phrisiai gymaint ar y swydd,
Ond carai wneud y gwaith.

Gobeithio y gellir dweud amdanon ninnau hefyd – mai'r hyn sy'n ein gyrru ni yw **cariad at waith yr Arglwydd Iesu Grist yn ymarferol heddiw yn wyneb angen cymdeithas yn ail ddegawd y mileniwn**. Nid mynd trwy'r 'mosiwns' yn unig er mwyn y swydd – ond **caru gwneud y gwaith** mewn modd ymarferol sy'n cynnig cynhaliaeth a gobaith am well byd i eraill o'n cwmpas.

Y peth cyntaf yr hoffwn i ei wneud, felly, wrth ymadael â'r Llywyddiaeth, yw talu gwrogaeth i 'ngorffennol, gan ddiolch am yr hyn a gafwyd gan ein cyndeidiau. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ein dyled i genedlaethau'r gorffennol a theimlo ein bod ni'n cael nerth ac ysbrydiolaeth o fod mewn olyniaeth mor gyfoethog.

Ychydig flynyddoedd yn ôl cefais y fraint o fynychu seremoni raddio ym Mhrifysgol Rhydychen. Roedd y cyfan mewn Lladin – iaith ddoe. Roedd y myfyrwyr a'r darlithwyr yn gwisgo gynau academiaidd â'u gwreiddiau ym mhatrwm gwisg y Canol Oesoedd – gwisg ddoe. A dyma Is-Ganghellor Prifysgol Rhydychen yn mynd ati i esbonio i'r gynulleidfa pa mor bwysig oedd hi i gadw at yr arferion 'rhyfedd' hyn o ddefnyddio **iaith ddoe** a **gwisg ddoe** yn yr unfed ganrif ar hugain. Roedd hynny'n rhoi **ymdeimlad o berthyn** i olyniaeth o genedlaethau sydd wedi cael yr un profiadau am ganrifoedd; yn galluogi graddedigion heddiw i **uniaethu** â phrofiad cenedlaethau gwahanol o fyfyrwyr ar hyd y canrifoedd; a'r **ymdeimlad o gadw at gysondeb safon y rhai sydd wedi derbyn gradd o Rydychen ar hyd y canrifoedd**. Roedd y seremoni raddio honno yn pwysleisio gwerth traddodiad, gan ddangos i ni o ble rydym wedi dod a bod yna gyfrifoldeb arnom ninnau i barhau i gynnal y gwerthoedd hynny.

Ond er pwysiced yr elfennau hynny o werthfawrogi'r gorffennol, fedrwn ni ddim byw ar yr hyn sydd gan y gorffennol hwnnw i'w gynnig i ni yn unig. **Heddiw** rydym ni'n byw – nid ddoe. A Christ ar gyfer angen **heddiw** yw ein Crist ni – nid Crist ar gyfer **ddoe** yn unig mohono.

Yr wythnos diwethaf, roeddwn yn Llundain ac ar boster yn un o'r gorsafodd rheilffordd digwyddais weld y dyfyniad hwnnw sydd wedi'i briodoli i lawer awdur: *'Today is a gift – that's why it's called the present'*.

Rhaid i ni fel Cristnogion gydio yn ysbryd y dyfyniad yna - a chyhoeddi neges efengyl sy'n berthnasol i heddiw. Rhaid i mi gyfaddef y byddaf yn tristáu yn aml o feddwl ein bod ni'n rhaffu ystrydebau diystyr o bulpud nad ydyn nhw'n deud **dim** wrthym am sefyllfa ac angen cymdeithas heddiw. Cydiwn yn heddiw cyn iddo fynd heibio i ni. Ein cyfrifoldeb ni yw dweud wrth gymdeithas heddiw beth sydd gan efengyl yr Arglwydd Iesu Grist i'w chynnig i bobol yn eu sefyllfa a'u hangen: nid yn unig o bulpud ond yn ymarferol wrth fyw o ddydd i ddydd. Mi ges i fy medyddio gan y diweddar Barch William Morris; mor wir a pherthnasol yw esgyll ei englyn enwog i'r diweddar Tom Nefyn:

'Ac o'i bregethau i gyd
Y fwyaf oedd ei fywyd'.

A ellir dweud hynny amdanom ni yn wyneb amgylchiadau anghenus ein cyfnod ni heddiw ? Ydym ni'n pregethu efengyl Iesu Grist – sydd yr un ddoe a heddiw ac am byth [Hebreaidd 13:8]? Mae Ef yn aros yr un. Ein gwaith ni yw dangos i'r gymdeithas yr ydym ni'n byw ynddi **heddiw** beth sydd gan Ei eglwys i'w ddweud wrthi hi yn ei hangen **heddiw** – yn **ymarferol** nid trwy **siarad** a **rhaffu ystrydebau** diystyr yn unig.

Wrth ddiolch am y fraint a'r anrhydedd o gael ysgwyddo cyfrifoldebau Llywydd yr Henaduriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, mi hoffwn grynhoi fy neges ar ddiwedd fy nhymor gyda thair 'D', gan bwysleisio:

- Ein **d**yled a'n diolch am dystiolaeth ddoe
- Pwysigrwydd **d**efnyddio heddiw a dehongli'r efengyl ar gyfer anghenion y byd sydd ohoni . . . er mwyn
- **D**iogelu'r dystiolaeth a'n gobaith ar gyfer yfory.

'Iesu Grist yr un ddoe a heddiw ac am byth'.